# PENTREF SOS Astudiaeth achos

# Pwll Nofio Aberteifi

## Ceredigion, Cymru

Credit: Cardigan Swimming Pool

Agorwyd Pwll Nofio a Chanolfan Hamdden Aberteifi yn 1977 a daw pobl o ardal eang yn y Gorllewin i'w ddefnyddio. Mae yna bwll 25 metr o hyd a neuadd chwaraeon gyda lolfa a balconi gwylio fyny'r grisiau. Dros y blynyddoedd mae'r cyfleusterau wedi ehangu, ac mae yno bellach gampfa, pwll therapi i blant bach a sawna.

Roedd rhai o'r cyfleusterau yn dechrau mynd yn hen, roedd angen mynediad ac ystafelloedd newid i bobl ag anabledd ac roedd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr eisiau diwygio a diweddaru'r cynllun busnes.

Rhoddodd Pentref SOS gymorth cynllunio busnes i fwrdd yr ymddiriedolwyr a chymorth i ddod o hyd i gyllid.

## MANYLION Y PROSIECT...

Roedd un ymddiriedolwr ar ddeg ac un aelod o staff rhan amser, y rheolwr, yn rhan o'r gwaith. Fe'i cefnogwyd gan fentor Pentref SOS a benodwyd gan DTA Cymru, un o'r partneriaid a oedd yn rhoi'r Ymgyrch ar waith.

## Camau a gymerwyd gyda chymorth VSOS:

- Chwilio am gyllid i ddod o hyd i gyllid priodol ar gyfer y gwaith cyfalaf.
- Cymorth i ganfod arfer gorau ymysg pyllau nofio a chyfleusterau hamdden eraill sydd dan berchnogaeth y gymuned ac yn cael eu rhedeg ganddi.
- Atgyfeirio at Ganolfan Cydweithredol Cymru i gael cymorth gyda'r cynllun busnes.
- Cymorth i Ddatgan Diddordeb yn y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig.
- Mynd i ddigwyddiad rhwydweithio Pentref SOS yn Wrecsam ar 23ain Mehefin 2016.

## Cadw mewn cysylltiad...


Pwll Nofio Aberteifi, Heol Napier, Fairground, Aberteifi, SA43 1EH

Ffôn: 01239 613632

Ebost: enquiriescardiganswimpool@gmail.com

Gwefan: www.cardiganswimmingpool.co.uk

Credit: Cardigan Swimming Pool


Yn dyfarnu arian Y Loteri Genedlaethol
Awarding funds from The National Lottery®

acre ACTION WITH COMMUNITIES IN RURAL ENGLAND

# Ariannu'r prosiect...

Canfu'r Ymddiriedolwyr a staff gyllid o'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig yng Ngheredigion er gyfer yr elfennau cyfalaf yn y prosiect – sef gosod technolegau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy; a hefyd gwella mynediad i bobl ag anabledd/ pobl hŷn. Unwaith y canfuwyd y cyllid, cynorthwyodd mentor Pentref SOS y grŵp i baratoi Datganiad o Ddiddordeb.

Mae'r grŵp wedi ymgeisio hefyd i gystadleuaeth Cronfa Ynni M & S am gyllid i osod solar ffotofoltaig ac ariannu'r costau rhedeg sblasio. Bydd solar ffotofoltaig yn yr adeilad yn gwella effeithlonrwydd ynni ac yn lleihau costau rhedeg cyffredinol.

Ar ôl mynd i ddigwyddiad Rhwydweithio Pentref SOS fis Mehefin 2016 yn Wrecsam, mae'r grŵp bellach yn ystyried ffyrdd eraill o godi arian, megis cyllido torfol a / neu gynnig cyfranddaliadau cymunedol.

"Bod yn bositif ac yn hyderus ynglŷn â dyfodol eich cyfleuster – meddwl am ffyrdd ymlaen a fydd yn gwireddu'ch amcanion ac yn datblygu'r cyfleuster i rywbeth sydd ar gyfer y gymuned leol."

## HYN SYDD WEDI DIGWYDD...

Lwyddodd y datganiad o ddiddordeb yn y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig ac mae cais llawn am £128,000 wedi'i baratoi.

Mae'r grŵp wedi'i gysylltu â Rhaglen Busnes Cymdeithasol Cymru, gan Ganolfan Cydweithredol Cymru, am gymorth ac yn bwriadu cael gwybod mwy am Raglen Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru (a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru).

Roedd digwyddiad Pentref SOS yn brofiad positif iawn a daeth y grŵp yn ôl yn llawn brwdfrydedd, ar ôl cwrdd ag eraill sydd wedi cyflawni gymaint. Gwnaent gysylltiadau defnyddiol â phrosiectau eraill gan gynnwys Canolfan Hamdden Wrecsam – sydd wedi llwyddo i ddenu cyllid ac ailwampio'n llwyr – a Phwll Arberth, pwll cymunedol llai, ond sydd hefyd yn llwyddiannus.

Dysgu oddi wrth eraill a chael gafael ar gymorth ychwanegol ...

- Mae'r grŵp wedi cael cymorth a mentora gan Raglen Adfywio Cymru.
- Mae'r grŵp yn ymgeisio am gyllid o'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig a Chronfa Ynni M & S.
- Mae'r grŵp yn cael cymorth i ddiweddaru ei gynllun busnes gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a Rhaglen Busnes Cymdeithasol Cymru.

## Beth sy'n dod nesaf?

- Mae'r grŵp wrthi'n diweddaru'r cynllun busnes ac yn gwneud ceisiadau am gyllid.
- Mae'r grŵp yn awyddus i gynnwys y gymuned leol ymhellach i farchnata'r cyfleuster, cynyddu'r nifer sy'n defnyddio'r pwll ac ennyn cefnogaeth y cyhoedd dros geisiadau am gyllid.
- Bydd y grŵp yn edrych ar fodelau buddsoddi eraill megis cyllido torfol yn ogystal â chymorth grant arall sydd ar gael.
- Ymhen 2 flynedd, hoffai'r grŵp weld y ganolfan ar sail fwy cynaliadwy, yn ariannol ac yn amgylcheddol, gan ddenu mwy o ddefnyddwyr a chynnwys rhagor o bobl leol.

## Other useful sources of support...

Renew Wales Programme
www.renewwales.org.uk

Rural Community Development Fund
www.gov.wales

Wales Co-Operative Centre
www.wales.coop

M&S Energy Fund
www.mandsenergyfund.com

### DTA Wales

This case study was produced by DTA Wales as one of the Village SOS partners in Wales.

INFRASTRUCTURE AND COUNTRY PARTNERS